

# Cip ar Ddiodydd

Mae siopwyr Cymru yn gwario llai ar alcohol wrth i ddata Kantar Worldpanel ddangos gostyngiad mewn gwerthiant adwerthu, gyda chyfartaledd pris 25p yn is. Mae Dŵr Mwynol yn tyfu'n gryf – 10% yn uwch mewn gwerth. Mae'r adwerthwyr disgownt yn tyfu yn y sector ddiodydd ar draul y 4 Mawr.

Roedd gwerthiant adwerthu holl ddiodydd Cymru 3.3% yn is y flwyddyn i £952m (y flwyddyn hyd at 29 Ionawr 2017). Er gwaethaf cynnydd yn amllder prynu diodydd (1.6 pwynt yn uwch) a chynnydd bach mewn treiddiad (0.1 pwynt yn uwch), mae siopwyr wedi mwynhau prisiau is gyda chyfartaledd pris y pecyn 7c yn is na'r llynedd. Alcohol sy'n bennaf gyfrifol am hyn, wrth i gyfartaledd pris ostwng 25c.

Roedd gwerth gwerthiant adwerthu alcohol a diodydd meddal i'w cludo adref yng Nghymru 3.6% a 2.7% yn is.

Er gwaetha'r gostyngiad, mae alcohol yn parhau i gyfrif am bron i dri chwarter (74.1%) marchnad ddiodydd Cymru, ac yn werth £705m. Mae hyn ychydig yn uwch na ffigwr Prydain, ar 73.9% lle mae diodydd oer yn bwysicach (Prydain 5.4% o'i gymharu â Chymru 5.0%).


Mae'r gostyngiad mewn diodydd oer i'w cludo adref yn rhannol yn

sgil gostyngiad mewn cynigion arbennig – gostyngiad o 4.2 pwynt yn y flwyddyn ddiwethaf. Roedd hyn yn bennaf oherwydd symudiad oddi wrth gynigion prynu mwy nag un a chynigion Y am EX, gan gyfrannu at ostyngiad o 1.4% mewn cyfaint yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae gwerthiant diodydd pefriog a sgwash 3.9% yn is y flwyddyn, a diodydd un tro i blant i lawr 11.6%. Mae dŵr mwynol yn parhau i dyfu'n gryf, i fyny 10% y flwyddyn.

Yn wahanol i Gymru, roedd gwerthiant diodydd Prydain 0.9% yn uwch i £16.3bn wrth i alcohol (1%) a diod oer (3.1%) weld twf. Cadwyd gostyngiad GB frequency of drives growth (+1.8%) although shoppers bought less per trip (-2.3%). Increased price per pack (0.5%), also helped to increase the overall spend by £139m.

Yn amllder prynu diodydd i'w cludo adref ym Mhrydain (-0.4%) wrth i bryderon am siogr a chyhoeddusrwydd

## Cyfanswm Diodydd | Cyfanswm Cymru | 52 w/g 29 Ionawr 2017



negyddol am y Dreth Siwgr ddyllanwadu ar y farchnad.

Yng Nghymru, mae Tesco'n dominyddu'r farchnad ddiodydd gyda 29% o'r farchnad, er i hyn ostwng 0.1% yn y flwyddyn ddiwethaf. Collodd pob un o'r 4 mawr ran o'r farchnad y llynedd wrth i'r adwerthwyr disgownt dyfu.

Tyfodd Aldi 1.3% yn sgil diodydd meddal i'w cludo adref, a gwelodd Lidl dwf aruthrol o 13.3% gyda phob sector yn tyfu: diodydd oer (54.7%), diodydd meddal i'w cludo adref (19.8%) ac alcohol (10.5%). Mae hyn lawer yn uwch na chyfanswm twf Lidl yng Nghymru o 11.1%.